

Adroddiad Gwrthwynebiadau

Ar y cynnig i drawsffurfio addysg uwchradd cyfrwng Saesneg yn y Barri drwy:

1. Sefydlu dwy ysgol gyfun cyfrwng Saesneg rhyw cymysg 11-18 ar safleoedd presennol Ysgol Gyfun y Barri ac Ysgol Gyfun Bryn Hafren;
2. Sefydlu chweched dosbarth ar y cyd, ar draws y ddwy ysgol; a
3. Chau'r ysgolion cyfrwng Saesneg unrhyw yn Y Barri, sef Ysgol Gyfun y Barri, ac Ysgol Gyfun Bryn Hafren;

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn fformatau eraill ar gais

Cysylltwch â ni ar 01446 709727 i drefnu hyn.

Cynnwys

Background.....	3
Consultation Report	3
Statutory Notice	3
Objections to the proposal	4
Appendix A	5

Cefndir

Dechreuodd yr ymgynghoriad ar gynnig i sefydlu dwy ysgol gyfun cyfrwng Saesneg rhyw cymysg newydd 11-18 ar safleoedd presennol Ysgol Gyfun y Barri ac Ysgol Gyfun Bryn Hafren ar 05 Medi 2016 a daeth i ben ar 17 Hydref 2016.

Eglurodd y ddogfen ymgynghori gynnig y Cyngor i drawsffurfio addysg uwchradd cyfrwng Saesneg yn y Barri drwy:

1. Sefydlu dwy ysgol gyfun cyfrwng Saesneg rhyw cymysg 11-18 ar safleoedd presennol Ysgol Gyfun y Barri a Ysgol Gyfun Bryn Hafren;
2. Sefydlu chweched dosbarth ar y cyd, ar draws y ddwy ysgol; a
3. Chau Ysgol Gyfun cyfrwng Saesneg y Barri ac Ysgol Gyfun cyfrwng Saesneg Bryn Hafren, ysgolion un rhyw;

Dilynodd y broses ymgynghori canllawiau Llywodraeth Cymru, ac roedd yn gyfle i bobl leol ddysgu am y cynnig ac i'r Cyngor glywed barn y bobl gyda buddiant fel bod modd eu hystyried cyn gwneud penderfyniad.

Adroddiad Ymgynghori

Cyhoeddwyd adroddiad ymgynghori ar ôl yr ymgynghoriad. Ystyriodd Cabinet y Cyngor yr adroddiad ymgynghori ar 12 Rhagfyr 2016. Penderfynodd y Cabinet fwrw ymlaen â'r cynnig ac i gyhoeddi hysbysiad statudol.

Hysbysiad Statudol

Cyhoeddwyd hysbysiad statudol ar y cynnig ar 3 Ionawr 2017 am 28 diwrnod i alluogi gwrthwynebiadau. Daeth cyfnod yr hysbysiad statudol i ben ar 31 Ionawr 2017.

Cyhoeddwyd yr hysbysiad ar wefan Cyngor Bro Morgannwg (www.valeofglamorgan.gov.uk/ysgolionybarri) a chafodd ei roi ar brif fynedfeydd ac yn ardaloedd cyfagos y ddau safle. Dyrannwyd copïau o'r hysbysiad i ddisgyblion, rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, llywodraethwyr ac aelodau staff. Cafodd pob sefydliad ac ymgynghorai arall gofynnol dan God Trefniadaeth Ysgolion 2013 un ai copi caled neu neges e-bost yn cynnwys y ddolen at yr hysbysiad cyhoeddedig ar wefan y Cyngor. Cafodd pob derbynnydd e-bost gopi o'r hysbysiad fel atodiad i'r e-bost, ynghyd â dolen at yr hysbysiad ar y wefan.

Os caiff gwrthwynebiadau eu derbyn i'r hysbysiad statudol, rhaid cyhoeddi adroddiad gwrthwynebu yn crynhoi'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y cynigiwr i'r gwrthwynebiadau hynny. **Gwrthwynebiadau i'r cynnig**

Derbyniodd yr awdurdod 3 gwrthwynebiad unigol erbyn dyddiad cau'r hysbysiad statudol. Ceir crynodeb o'r prif themâu a'r materion a drafododd yr ymatebwyd ac ymateb Cyngor Bro Morgannwg yn Atodiad A.

Yn bennaf, mae'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori sydd wedi'u hail-gyflwyno eto. Bydd y sylwadau hyn yn gyfarwydd gan fod aelodau eisoes wedi darllen yr ymatebion ymgynghori yn yr adroddiad ymgynghori. Atgoffir aelodau bod gan unigolion yr hawl i ail-gyflwyno eu sylwadau blaenorol fel gwrthwynebiadau. Felly, dylai aelodau sicrhau bod y sylwadau hyn sydd wedi'u cyflwyno fel gwrthwynebiadau yn cael eu hystyried.

Mae'r holl wrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu ar gael yn yr Ystafell Aelodau yn Swyddfeydd Cyngor Bro Morgannwg, Heol Holltwn, Y Barri ynghyd â'r adroddiad ymgynghori i'w weld ymhellach.

Mae'r atodiad hwn yn crynhoi'r prif faterion a drafodwyd yn ystod cyfnod yr hysbysiad statudol. Mae'r materion yn cynrychioli trosolwg o themâu'r ymatebion ac nid ydynt yn air am air. Mae'r holl wrthwynebiadau ysgrifenedig ar gael i'r Aelodau Cabinet.

Mater 1

Cau ysgolion

Holodd Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) a oedd angen cau'r ysgolion, gan nodi bod modd gwireddu'r cynnig heb gau ac ail-enwi ysgolion.

Ymateb y cyngor i'r pryderon a nodwyd

Sefydlwyd Bwrdd Ymgynghorol fis Ionawr 2016. Roedd yr Aelod Cabinet dros Adfywio ac Addysg yn cadeirio'r bwrdd, a oedd yn cynnwys Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau ac uwch reolwyr eraill o'r Cyngor, penaethiaid a llywodraethwyr yr ysgolion dan sylw, Pennaeth a Phrif Weithredwr Coleg Caerdydd a'r Fro ac ystod o weithwyr proffesiynol y sector addysg er mwyn adolygu opsiynau i sefydlu ysgolion cyfrwng Saesneg rhyw cymysg yn Y Barri.

Blaenoriaeth gyntaf y Bwrdd oedd datblygu strategaeth ymgysylltu a oedd yn sicrhau bod barn disgyblion, athrawon, rhieni, llywodraethwyr a'r undebau llafur wrth galon y datblygiad ac unrhyw gynigion newydd.

Er mwyn cyflawni graddfa'r trawsffurfiad oedd ei angen i gyrraedd y targedau bwriedig ar gyfer addysg rhyw cymysg yn Y Barri, ystyrir fod angen sefydlu'r ysgolion rhyw cymysg newydd. Golyga hyn fod angen ail-frandio'r ysgol. Nid yw'r ail-frandio hyn yn golygu newid enw'r ysgol yn unig, oherwydd bydd angen gwneud llawer o newidiadau i sicrhau bod y ddau ryw wedi'u cynnwys yn llawn, waeth beth fo safle'r ysgolion, ac i sefydlu prosesau cydweithio, yn enwedig mewn perthynas â darpariaeth chweched dosbarth.

Dyma'r opsiwn gorau er mwyn cyflawni'r canlyniadau bwriedig a nodwyd gan y bwrdd:

- Sicrhau gwelliannau pellach i ganlyniadau addysgol, gan gynnwys presenoldeb, perfformiad disgyblion sy'n gymwys ar gyfer pryddau ysgol am ddim a chymwysterau TGAU ac ôl-16.
- Cefnogi cynnydd yn y nifer o ddisgyblion sy'n symud ymlaen i addysg bellach ac addysg uwch a lleihau nifer y disgyblion sy'n gadael yr ysgol ac yn peidio mynd i mewn i addysg, gwaith na hyfforddiant (NEET), gyda chydweithio posibl gyda Choleg Caerdydd a'r Fro o ran darpariaeth ôl-16.
- Cynnig amgylcheddau dysgu sy'n cefnogi ac yn herio plant unigol i lwyddo, gan gynnwys disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol.

- Creu amgylcheddau dysgu sy'n hybu arloesedd a chreadigrwydd y mae modd eu haddasu i ymateb i newidiadau yn y cwricwlwm.
- Adeiladu enw da a phoblogrwydd ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg yn y Barri a lleihau nifer y bobl ifanc sy'n teithio i'r tu allan i'r dref i fynd i'r ysgol.
- Gwella lefelau boddhad disgyblion a staff.
- Cynnal a gwella lefel mynediad cymunedol at gyfleusterau'r ysgolion.
- Sicrhau bod cytbwysedd cynaliadwy rhwng y cyflenwad a'r galw am leoedd ysgolion, gan gynnwys yn y tymor hir.
- Cynnwys trefniadau pontio sy'n lleihau unrhyw darfu ar ddysgu neu addysgu.
- Lleihau defnydd ynni, bod yn gost-effeithiol ac yn gyraeddadwy, gan ystyried yn llawn swm y cyllid sydd ar gael.

Cefnogodd y Cabinet yr opsiwn i gau'r ddwy ysgol ar 4 Gorffennaf 2016 (rhif cofnod C3230) a gan Bwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ar 3 Hydref 2016.

Gan y bydd y ddwy ysgol yn newydd, byddai gan y naill ysgol a'r llall gorff llywodraethu newydd. I ddechrau, bydd hyn yn cael ei sefydlu fel corff llywodraethu dros dro cyn agor y ddwy ysgol newydd yn ffurfiol ar 01 Medi 2018. Tasg gyntaf y cyrff llywodraethu dros dro bydd hysbysebu a recriwtio i swydd y pennaeth. Bydd cyrff llywodraethu dros dro'r ddwy ysgol newydd yn penderfynu pwy ddylai gael ei benodi i swyddi'r pennaethiaid.

Bydd y dull hwn yn sicrhau bod cyfle i gryfhau arweinyddiaeth ble bo angen, ac yn ddefnyddiol wrth ddiystyru unrhyw farn hanesyddol presennol a allai darfu ar gynnydd, gyda'r nod o wella'r amgylchedd ddysgu a sicrhau dyfodol y ddwy ysgol. Bydd hyn yn sicrhau cytbwysedd cynaliadwy rhwng y cyflenwad a'r galw am leoedd mewn ysgolion uwchradd yn y Barri i'r dyfodol. Bydd newidiadau o ran arweinyddiaeth a llywodraethu wrth sefydlu'r ysgolion newydd, gan greu cyfle i adlewyrchu ar anghenion yr amgylcheddau dysgu newydd, chweched dosbarth ar y cyd a gofynion gweithredol y ddwy ysgol.

Mater 2

Staffio

Nododd NASUWT nad yw diddymu contractau pob aelod staff gan ddechrau ar broses o ddiswyddo ac ymgysylltu yn dderbyniol.

Roedd UNISON o'r un farn a bod yr aelodau yn disgwyl bod yr holl swyddi wedi'u diogelu. Yn ogystal, trafododd UNISON ddyletswydd gofal y Cyngor i'r holl staff fel y'i disgrifiwyd yn y Siarter Gweithwyr.

Ymateb y cyngor i'r pryderon a nodwyd

Mae'r Cyngor yn gefnogol iawn o'r egwyddorion a nodir yn ei Siarter Gweithwyr ac yn cydymffurfio'n llawn â hwy.

Mae'r goblygiadau o ran diogelu swyddi staff yn sgil y cynnig wedi bod yn bryder mawr i'r holl randdeiliaid, ac yn destun trafod rhwng y Cyngor, staff yr ysgolion, rhieni, disgyblion a'r undebau llafur fel rhan o broses ymgysylltu parhaus y Cyngor. Mae penderfyniadau ar newidiadau i'r strwythur staffio yn yr ysgolion yn fater i gyrrff llywodraethu'r ysgolion perthnasol, ac nid yw o fewn cylch gwaith y Cyngor. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi bod yn glir y bydd yn argymhell yn gryf y dylid diogelu swyddi (ar gyfer staff addysgu a staff cynorthwyol) yn y ddwy ysgol, gan geisio datganiadau o ddiddordeb gan staff cyfredon, **ac ni fydd yn cefnogi** cynllunio i ddiswyddo ac ail-benodi staff neu hysbysebu'n allanol, oni bai am swyddi'r Penaethiaid a'r Dirprwy Benaethiaid. Mae'r Cyngor wedi nodi pe na fyddai'r cyrrff llywodraethu yn dilyn yr argymhelliad hwn, ni fyddai'n hollol gefnogol o hyn.

Ni ystyrir diogelu swyddi yn ymarfer diswyddo ac ail-ymgysylltu, oherwydd byddai'r staff yn trosglwyddo ar yr un telerau ac amodau. Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i gadw cymaint o'r staff presennol ag sy'n bosibl, er budd y disgyblion ac er budd cefnogaeth fugeiliol. Er y bydd cau'r ddwy ysgol yn golygu bod angen i staff ddatgan diddordeb mewn swydd, ni ddisgwylir unrhyw ddiswyddiad o ganlyniad i'r cynnig. Ffocws y cynnig hwn yw gwella darpariaeth a chanlyniadau addysgol i ddisgyblion y Barri; nid yw'n ymarfer er mwyn arbed arian.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd y cynnig hwn yn creu llawer o ansicrwydd i staff presennol yr ysgolion. Mae'n amlwg bod angen i'r staff gorau posib barhau i weithio yn yr ysgolion er mwyn cyflawni'r dyhead drawsffurfio canlyniadau addysgol. Mae'r Cyngor wedi ceisio crybwyll wrth athrawon a gweithwyr eraill mai bwriad y cynnig yw gwella darpariaeth uwchradd yn y Barri, ac nid lleihau nifer y staff nac arbed arian. Ble'n briodol, bydd rhaglen hyfforddi a datblygu yn cael ei darparu i staff drwy gydol y broses o newid ac ar waith yn yr ysgolion newydd.

Bydd y Cyngor yn cefnogi'r llywodraethwyr, y penaethiaid a staff y ddwy ysgol gydag unrhyw newidiadau. Wrth sefydlu dwy ysgol uwchradd rhyw cymysg cyfrwng Saesneg newydd, y dasg gyntaf i'r cyrrff llywodraethu yw penodi'r Penaethiaid a datblygu strwythurau staffio i baratoi at agoriad swyddogion yr ysgolion fis Medi 2018. Byddai newidiadau staffio yn destun ymgynghoriad llawn gyda'r staff a'r undebau llafur perthnasol.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryder a'r ansicrwydd y gall staff deimlo o ganlyniad i'r cynnig hwn, ac felly rhannwyd yr ohebiaeth ganlynol gyda'r ddwy ysgol:

“Er mai cyfrifoldeb y cyrrff llywodraethu yw penderfynu ar strwythurau staffio a'r broses o benodi i swyddi, bydd yr Awdurdod Lleol yn argymhell yn gryf bod y cyrrff llywodraethu'n defnyddio'r dull canlynol:

Dylai'r ddau gorff llywodraethu gydweithio er mwyn sicrhau'r cymysgedd staff gorau ar gyfer y ddwy ysgol newydd. Y nod fyddai sicrhau rhyw fath o gysondeb o ran cefnogaeth fugeiliol y disgyblion, drwy roi cyfleoedd symudedd i staff yn unol ag anghenion y ddwy ysgol. "

Sut mae datgan diddordeb mewn swydd?

Dylid annog staff i ddatgan diddordeb mewn swyddi yn y ddwy ysgol, ac i nodi yn glir eu dewis cyntaf. Ble bo'n bosibl, bydd staff yn cael eu rhoi mewn swyddi a fyddai'n golygu na fyddai angen i'r staff hynny wneud cais am swyddi na chael eu cyfweld.

Mae'n bosibl y bydd cystadleuaeth mewn rhai meysydd o ganlyniad i'r ailstrwythuro, er enghraifft, efallai y bydd llai o swyddi Cyfrifoldeb, Addysgu, Dysgu [CAD]. Mewn amgylchiadau o'r fath, byddai'n rhaid cynnal cyfweiliadau. Os oes lleihad yn nifer y swyddi Uwch Dîm Rheoli [UDRh] / CAD, byddai diogelu cyflog yn berthnasol yn unol â Dogfen Amodau a Chyflog Athrawon Ysgol. Bydd staff cynorthwyol yn cael blwyddyn o ddiogelu cyflog os oes unrhyw newid i'r strwythur staffio sy'n effeithio ar raddfeydd cyflog.

Bydd staff sy'n cymryd swyddi yn yr ysgolion newydd yn cael llythyr yn cadarnhau manylion am drefniadau adrodd yr ysgol newydd, ond bydd y gwasanaeth yn cael ei ystyried yn wasanaeth parhaus ac ni fydd newidiadau i unrhyw delerau ac amodau/trefniadau pensiwn.

A fydd diswyddo a/neu pecynnau yn opsiwn i staff?

Ni ddisgwylir unrhyw ddiswyddo o ganlyniad i'r cynnig, ond os oes diswyddiad dilys, byddai darpariaethau Trefn Dileu Swyddi Ysgolion yn berthnasol. Nid oes bwriad i gynnig 'pecynnau' i staff nad ydynt yn dymuno gweithio mewn unrhyw ysgol – ein dyhead yw cadw cymaint o aelodau staff ag sy'n bosibl."

Mae'r ohebiaeth uchod wedi'i rhannu gyda staff ac wedi bod yn ddefnyddiol wrth leddfu unrhyw bryderon dros swyddi i'r dyfodol.

Mater 3

Dalgylchoedd Ysgolion

Nododd UNISON bod angen i'r dalgylchoedd fod yn gyfiawn i'r ddwy ysgol.

Nododd NASUWT nad ydyw wedi'i argyhoeddi y bydd y dalgylchoedd arfaethedig yn cyflawni nodau'r awdurdod o wella safonau addysgol.

Ymateb y cyngor i'r pryderon a nodwyd

Bydd angen newid y dalgylchoedd oherwydd ar hyn o bryd mae'r ddwy ysgol yn gysylltiedig â'r un dalgylch.

Mae'n bwysig cydnabod bod y dalgylchoedd yn chwarae rhan fechan wrth bennu lleoliadau ysgolion fel rhan o bolisi derbyn y Cyngor pan fydd yr ysgolion yn llawn. Os oes capasiti, dewis y rhieni fydd y ffactor terfynol.

Ystyriodd y Bwrdd Ymgynghorol sawl opsiwn o ran dalgylch yr ysgolion, gyda'r opsiwn ddewisol yn cynnig cymaint o gydraddoldeb ag sy'n bosibl mewn perthynas â nifer y disgyblion yn byw yn y dalgylchoedd, mewn perthynas â lefelau amddifadedd a'r pellter y byddai'n rhaid i ddisgyblion deithio i'r ysgol. Gwnaeth penaethiaid, cadeiryddion llywodraethwyr ac ysgolion cynradd perthnasol presennol gyfrannu at a chytuno ar y cynnig terfynol. Mae'r opsiwn ddewisol o ran dalgylch hefyd yn dilyn ffiniau daearyddol rhesymol.

Mae'r ardaloedd dalgylch arfaethedig yn dilyn y rhan fwyaf o ffiniau dalgylch ysgolion cynradd presennol gyda mynediad rhwydd i'r ddau gampws o fewn y ffiniau dalgylch dynodedig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Barri yn byw o fewn tair milltir o'r campws.

Er bod y cynigion yn lleihau capasiti cyffredinol yr ysgolion, mae hyn er mwyn dod â lefelau dros ben uchel iawn presennol i lefel resymol. Gyda niferoedd disgyblion presennol ac arfaethedig, bydd gan yr ysgolion dal llefydd yn weddill i fodloni galw ychwanegol.

Mae'r Barri hefyd yn elwa o nifer o brojectau adfywio a datblygiadau tai newydd a fydd yn parhau i leihau'r bwloch economaidd-gymdeithasol ymhlith demograffig disgyblion yn y ddwy ysgol.

Byddai sefydlu'r ysgolion newydd a dalgylchoedd cysylltiedig yn rhoi cyfle i'r ysgolion ail-frandio eu hunain.

Mater 4

Ariannu

Roedd UNISON yn pryderu nad oes unrhyw warant na phrosesau diogelu cyllid hyd yma. Heb gyllid llawn, ni fyddai'r ysgolion wedi paratoi ddigon.

Nododd NASUWT bryder nad oes unrhyw warant y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i fuddsoddi i'r adeiladau ysgol newydd a phresennol.

Ymateb y cyngor i'r pryderon a nodwyd

Cost amcangyfrifol y cynllun yw £44m. Mae hyn yn cynnwys £11.5 miliwn ar gyfer y cynllun ar safle Bryn Hafren a £32.5 miliwn ar gyfer yr adeilad ysgol a'r ganolfan ymddygiadol newydd ar safle Ysgol Gyfun y Barri. Disgwylir y byddai Llywodraeth Cymru yn darparu rhan o'r cyllid dan Fand B y Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Byddai'r Cyngor yn darparu gweddill yr arian cyfalaf.

Mae'r Cyngor eisoes wedi clustnodi £22m tuag at gost amcangyfrifol y cynllun, ac fe fydd yn bidio am arian cyfatebol drwy Fand B Rhaglen Ysgolion

yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn dechrau paratoi cynlluniau ar gyfer Band B y rhaglen.

Mae Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau lleol sy'n disgwyl rhoi cynlluniau ar waith yn 2019/20 i gyflwyno cynllun busnes o leiaf blwyddyn ymlaen llaw. Drwy baratoi gweledigaeth glir i drawsffurfio ysgolion uwchradd yn y Barri, bydd y Cyngor mewn sefyllfa dda i gael mynediad at gyllid Band B.

Mae'r Cyngor wedi llwyddo ym mhob cais am arian i Lywodraeth Cymru ar gyfer Band A o'r rhaglen fuddsoddi Ysgolion yr 21ain Ganrif. Gan fod gennym resymeg gref a chyflawniad cyson o bob project adeiladu ysgolion, rydym yn hyderus y byddant yn cael yr un canlyniadau llwyddiannus ar gyfer ein projectau buddsoddiad ysgolion Band B.

Er bod gan y Cyngor enw da o ran sicrhau arian Ysgolion yr 21ain Ganrif gan Lywodraeth Cymru, cydnabyddir nad oes modd gwarantu hyn. Os nad yw cyllid ar gael gan Lywodraeth Cymru, efallai na fydd yn bosibl darparu adeilad newydd a gwaith trawsffurfio helaeth yr adeilad ysgol arall fel y'i disgrifiwyd yn y ddogfen ymgynghori. Yn yr amgylchiadau hyn, byddai angen adolygu'r opsiynau o ran cael buddsoddiad i wella adeiladau'r ysgolion. Ni fydd hyn yn tarfu ar ymrwymiad y Cyngor i sicrhau addysg uwchradd rhyw cymysg yn y Barri.

Mae gwerthusiad opsiwn costau cynhwysfawr wedi'i gynnal. Mae'r Cyngor yn hyderus y bydd y lefel o fuddsoddiad a nodir yn ddigonol er mwyn trawsffurfio adeiladau'r ysgolion uwchradd. Bydd y buddsoddiad yn cynnig y nifer iawn o leoedd ysgol, yn codi safonau dysgu ac yn gwella adeiladau sydd mewn cyflwr gwael ar hyn o bryd.

Mater 5

Cynllun Pontio

Nid yw NASUWT wedi'i argyhoeddi ynghylch cywirdeb y cynllun pontio os yw'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, oherwydd mae rhai pynciau'n dechrau cyrsiau TGAU yn ystod blwyddyn 9.

Ymateb y cyngor i'r pryderon a nodwyd

Nodwyd trefniadau pontio yn elfen hanfodol ar wella'r cynnig blaenorol i greu addysg rhyw cymysg yn 2015. Mae'r cynnig presennol yn nodi manylion penodol ar drefniadau staff a disgyblion i fynd ar ôl hyn, gyda rhaglen waith benodol yn cael ei gweithredu gan y Bwrdd Ymgynghorol i lywio'r cynnig a gyflwynir. Pe caiff y cynnig ei gymeradwyo, y bwriad yw agor y ddwy ysgol newydd fis Medi 2018.

Mae'r sylwadau a nodir yn yr adroddiad ymgynghori yn trafod y materion a godwyd fel a ganlyn:

Mae'n hanfodol bod cynlluniau effeithiol ar waith i sicrhau prosesau pontio effeithiol o'r ysgolion uwchradd un-rhyw presennol i ddwy ysgol uwchradd rhyw cymysg ym mis Medi 2018.

Mae adborth gan randdeiliaid yn nodi dyhead i symud i addysg rhyw cymysg cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl wrth leihau unrhyw effeithiau i ddisgyblion, yn benodol y disgyblion hynny sydd ar fin sefyll arholiadau TGAU a Lefel A yn ystod haf 2019.

Mae Ysgolion Cyfun y Barri a Bryn Hafren eisoes yn gweithredu chweched dosbarth ar y cyd gydag ambell ddosbarth rhyw cymysg. Byddai disgyblion sy'n dechrau ym mlwyddyn 13 ym mis Medi 2018 yn parhau gyda'u hastudiaethau mewn dosbarthiadau un-rhyw ble bo'n berthnasol.

Byddai disgyblion sy'n dechrau ym mlwyddyn 11 ym mis Medi 2018 hefyd yn parhau i gael eu haddysg mewn dosbarthiadau un-rhyw yn yr ysgol y gwnaethon nhw ei mynychu ym mlwyddyn 10 er mwyn lleddfu'r effeithiau.

Penodwyd gweithwyr proffesiynol addysg ar ran y Bwrdd Ymgynghorol er mwyn datblygu'r cynllun pontio. Mae'r cynllun pontio arfaethedig yn darparu ffocws clir ar wella deilliannau i'r holl ddisgyblion yr effeithir arnynt.

Camau posib y broses Pontio i ddisgyblion a rhieni

O fis Mawrth 2017	Bydd disgyblion o'r ddwy ysgol yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar y cyd a bydd cynghorau ysgol ar y cyd yn cael eu sefydlu.
Medi 2017	Bydd angen i rieni/gofalwyr disgyblion ym mlwyddyn 6 mewn ysgol gynradd wneud cais am le mewn ysgol uwchradd ym mis Medi'r flwyddyn wedyn. Bydd lleoedd yn yr ysgolion newydd ar gael drwy'r broses dderbyniadau arferol.
Medi 2017	Bydd angen i rieni a gofalwyr disgyblion ym mlynnyddoedd 7 i 10 i wneud cais am le yn yr ysgolion uwchradd newydd.
Rhagfyr 2017	Bydd rhieni disgyblion blwyddyn 6, 7, 8, 9 a 10 yn cael gwybod pa ysgol y byddant yn mynychu ym mis Medi 2018. Bydd disgyblion sy'n dechrau ym mlwyddyn 11, 12 ac 13 o fis Medi 2018 ymlaen yn cael eu cofrestru yn yr ysgol sy'n agor ar eu safle ysgol cyfredol.
Gwanwyn 2018	Bydd disgyblion ym Mlwyddyn 9 yn ysgolion y Barri a Bryn Hafren yn dewis eu hopsiynau TGAU erbyn mis Medi 2018.
Gwanwyn 2018	Bydd disgyblion ym Mlwyddyn 11 yn dewis eu

	pynciau lefel A. Byddai pob ysgol yn arbenigo mewn cyrsiau penodol. Byddai disgyblion yn cael eu cofrestru yn yr ysgol sy'n cynnig eu cwrs dewisol. Efallai y bydd hyn yn golygu bod disgyblion yn dal i deithio rhwng y ddwy ysgol fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.
Gorffennaf 2018	Bydd y Barri a Bryn Hafren yn cau ddiwedd tymor yr haf. Bydd yr ysgolion uwchradd rhyw cymysg yn agor ym mis Medi 2018.
Medi 2018	Ysgolion newydd yn agor Blynyddoedd 7, 8, 9, 10 a 12 mewn dosbarthiadau rhyw cymysg Bydd Blwyddyn 11 yn parhau yn eu dosbarthiadau presennol ar y safle presennol ar gyfer y flwyddyn ysgol 2018-19 Bydd Blwyddyn 13 yn parhau yn eu dosbarthiadau presennol.
Medi 2019	Bydd pob disgybl mewn dosbarth rhyw cymysg.

Bydd angen cynllunio manwl yn ystod y cyfnod o newid arfaethedig i leihau unrhyw risg o darfu ar y disgyblion a allai effeithio eu dysgu yn ystod y gwaith adeiladu a'r pontio. Bydd y Cyngor yn clustnodi adnoddau i benodi rheolwr projectau i ganolbwyntio ar gefnogi'r ysgolion newydd a phontio. Bydd cynllun pontio llawn yn cael ei ddatblygu gyda'r uwch dîm arweinyddiaeth a chyrrff llywodraethu dros dro'r ddwy ysgol. Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod y pwysigrwydd o gael amgylchedd addysgol sefydlog cyn ac yn ystod cyfnodau arholiadau, a bydd yn cefnogi'r ysgolion i leihau unrhyw darfu yn ystod y cyfnodau hyn.

Pe caiff y cynnig ei gymeradwyo, y bwriad yw agor y ddwy ysgol newydd ym mis Medi 2018. Bydd gofyn i rieni disgyblion ym mlynnyddoedd 7 i 10 ddatgan eu blaenoriaeth o ran lle yn un o'r ysgolion newydd. Bydd y lleoedd yn cael eu dyrannu drwy broses dderbyn y Cyngor. I leihau unrhyw darfu wrth baratoi at arholiadau TGAU, bydd disgyblion ym mlynyddyn 11 yn parhau yn eu dosbarthiadau presennol ac yn cael eu cofrestru yn yr ysgol sy'n agor ar safle eu hysgol bresennol. Bydd disgyblion sy'n mynd i mewn i flynyddoedd 12 a 13 hefyd yn cael eu cofrestru yn yr ysgol sy'n agor ar safle eu hysgol bresennol ond yn parhau yn eu dosbarthiadau presennol ar gyfer 2018-19.

Mater 6

Arbedion net

Mae NASUWT wedi datgan nad yw'r Awdurdod Lleol wedi llwyddo i ystyried graddfa unrhyw arbedion net yn unol â pharagraff 1.5, Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru:

*“Mewn perthynas â chynigion lle mae angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol ymlaen llaw (er enghraifft i ategu gwaith ailfodelu sylweddol, gwaith adnewyddu neu brosiect adeiladu o’r newydd), **dylid** cyfrifo costau ac arbedion y cynigion dros oes yr adeilad perthnasol, a’u cymharu â’r costau a’r arbedion sy’n gysylltiedig â chynnal y sefyllfa sydd ohoni.”*

Ymateb y cyngor i’r pryderon a nodwyd

Mae natur y cynnig hwn yn mynd tu hwnt i fuddsoddi cyfalaf mewn adeiladau ysgolion, gan ei fod yn ymwneud â thrawsfurfio addysg uwchradd yn y Barri drwy sefydlu addysg rhyw cymysg. Prif yrrwr y cynnig yw gwella canlyniadau addysgol i blant a phobl ifanc yn ystod bob cyfnod, ynghyd â helpu i leihau’r bwlch o ran cyflawniad rhwng grwpiau ac unigolion breintiedig a difreintiedig.

Ni ystyriwyd cynnal y sefyllfa sydd ohoni yn opsiwn oherwydd ni fyddai’n datrys yr angen i sefydlu addysg rhyw cymysg, y niferoedd yn gostwng yn y ddwy ysgol, a’r diffygion sylweddol o ran amgylcheddau dysgu yn Ysgol Gyfun y Barri ac Ysgol Gyfun Bryn Hafren.

Bydd gofyn i’r Cyngor ddangos costau ac arbedion dros fywydau’r adeiladau yn y cynllun busnes ar gyfer cyllid, a fydd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn ystod 2018.

Mae gan y cynllun y potensial i sicrhau bod disgyblion y ddau ryw yn cael mynediad at gwricwlwm eang, a bod rhai o’n pobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial drwy ddarpariaeth amgylcheddau dysgu ysgogol a chymorth arbenigol.

Bydd y cynnig hwn yn golygu y gwneir buddsoddiadau cyfalaf wrth sefydlu’r ysgolion newydd a datblygu cyfleusterau penigamp. Cost amcangyfrifol y cynllun yw £44m. Disgwylir y byddai Llywodraeth Cymru yn darparu rhan o’r cyllid dan Fand B y Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Byddai’r Cyngor yn darparu gweddill yr arian cyfalaf.

Mater 7

Y Sefyllfa sydd ohoni

Roedd ymatebwr o’r farn y dylai Ysgol Gyfun Bryn Hafren aros fel y mae (merched yn unig) gan ei bod yn un o’r unig ysgolion unigryw yng Nghymru.

Ymateb y cyngor i’r pryder a nodwyd

Mae’r Cyngor wedi ymgymryd ag ymgynghori manwl dros y tair blynedd diwethaf ar drawsffurfio addysg uwchradd yn y Barri. Ymateb cyffredinol y gymuned yw dymuniad i gael addysg rhyw cymysg. Nid yw cynnal y sefyllfa sydd ohoni yn adlewyrchu’r dymuniad i gael addysg rhyw cymysg yn y Barri.

Ni fyddai cynnal y sefyllfa sydd ohoni yn:

- Datrys y broblem o lefydd gwag yn y ddwy ysgol.

- Datrys y broblem o gyflwr adeiladau'r ysgolion a sut allwn ni foderneiddio a gwella'r amgylchedd ddysgu ac addysgu.
- Bodloni'r angen i wella canlyniadau addysgol
- Bodloni'r galw am addysg rhyw cymysg yn y Barri.

Nid yw adeiladau'r ddwy ysgol mewn cyflwr addas ar gyfer addysgu a dysgu yn yr 21ain ganrif, ac mae angen buddsoddiad sylweddol arnynt. Mae'r cynnig yn ceisio mynd ar ôl hyn drwy gael buddsoddiad ariannol sylweddol gan Gyngor Bro Morgannwg mewn partneriaeth â Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru.